# SUT MAE GWNEUD TORTH?


gyrfaoedd BLASUS mewn bwyd a diod CYMRU

… Nid yw'n broses mor syml ag y byddech yn ei feddwl……

Mae **FFERMWYR** yn tyfu'r gwenith ac yn ei gynaeafu gan ddefnyddio offer wedi'i ddylunio gan **BEIRIANWYR AMAETHYDDOL**. Mae'r gwenith yn cael ei falu ac mae lefel protein y blawd yn cael ei wirio gan **DECHNOLEGWYR BWYD** i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer gwneud bara. Yna, mae **PRYNWYR** o'r becws yn prynu mwy o gynhwysion gan gynnwys halen, siwgr a burum. Mae **GWYDDONWYR A THECHNOLEGWYR BWYD** yn gwirio ansawdd y cynhwysion ac yna draw at **DÎM Y RHEOLWR CYNHYRCHU** i weithgynhyrchu'r cyfanswm cywir o fara gan ddefnyddio'r rysáit a ddatblygwyd gan y **RHEOLWR DATBLYGU CYNNYRCH** tra bod **PEIRIANWYR BWYD** yn dylunio ac yn cynnal a chadw'r offer a ddefnyddir ar gyfer pobi a sleisio. Erbyn hyn, mae **YMCHWILWYR PECYNNU BWYD** eisoes wedi ymchwilio ac wedi dewis pecynnau er mwyn dewis y deunydd a'r dull pecynnu cywir.

Trwy gydol y broses sy'n cael ei reoli gan y **RHEOLWR TECHNEGOL** mae ansawdd a diogelwch y bara'n cael ei wirio'n barhaus gan y **RHEOLWR SICRHAU ANSAWDD.** Yn olaf, mae'r bara'n cael ei anfon i'r siop gan y **RHEOLWR DOSBARTHU** er mwyn iddo fod yn ffres ac yn iachus pan fydd yn cyrraedd eich bag siopa!



## A CHITHAU'N MEDDWL MAI DIM OND YCHYDIG O GWPANAU O FLAWD A MENYN OEDD EI ANGEN!

Er mwyn darganfod mwy am y math o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn y Diwydiant Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod, ewch i:

**TASTYCAREERSWALES.ORG.UK**

Dilynwch ni ar: